**ATODIAD 7**

**BALANSAU**

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £7.5m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.8% o wariant refeniw gros y Cyngor.

2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.

3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd mewn galw am wasanaethau gofal, ansicrwydd Brexit ac adolygiad gwariant Llywodraeth San Steffan ar y gweill, yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.

4. Wedi defnyddio £312k o danwariant corfforaethol 2019/20 er mwyn ariannu'r bidiau un-tro, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2020/21**.

5. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 21 Mai 2019 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 13 Mehefin 2019, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £4m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mai/Mehefin 2020**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.

6. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

   > *"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag,* ***ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn.*** *Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

   Ategwyd y neges yma mewn cyfarfod adborth diweddar gyda SAC, a disgwylir iddynt adrodd yn fuan ar gynaliadwyedd a gwytnwch ariannol awdurdodau lleol Cymru.

7. Hefyd, ar 10 Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad am gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, sy'n rhoi cyd-destun defnyddiol i'n sefyllfa ac yn dangos Cyngor Gwynedd ar lefel rhesymol yn ganol amrediad o gronfeydd defnyddiadwy awdurdodau Cymru.
   https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cronfeydd-yr-awdurdodau-lleol-2018-19.pdf

8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o gronfeydd penodol (y Gronfa Trawsffurfio, ayb) i ariannu gofynion un-tro (fel bydd rheiny yn codi) yn weithred cwbl briodol, a ni argymhellir unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2020/21.

9. Wrth gwrs, gallai sefyllfa ariannol 2020/21 wedi bod yn wahanol. Eleni, mae balansau'r Cyngor wedi bod yn arf allweddol roedd yn caniatáu i ni aros i weld beth oedd sefyllfa'r setliad grant, cyn hyd yn oed ystyried lefel arbedion uwchben y £2m. Roedd bodolaeth ein balansau yn 'prynu amser' ac osgoi 'hel bwganod' am doriadau nad oedd eu hangen erbyn 2020/21. Gan nad oeddem wedi gorfod defnyddio balansau eleni i 'bontio' hyd nes byddai cynlluniau arbedion ychwanegol wedi'u cymeradwyo a'u gweithredu, mae cadw'r balansau yn caniatáu i ni ddefnyddio'r un rhesymeg eto erbyn cyllideb 2021/22.